**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 4ydd Mai 2023 am 7.45 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas a Ray Williams.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc: Denfer Morgan

**102 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies ac Eirlys James-Evans a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**102 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 13eg Ebrill 2023.

**103 Mynwent Eglwys Cilcennin**

Nodwyd nad oedd y Parch Wyn Maskell ar gael ar gyfer cyfarfod heno ac i'w wahodd ynghyd â Mr Gwyndaf Morgan i ddod i gyfarfod mis Mehefin.

**104 Adeilad Ysgol Cilcennin**

Dywedodd y Clerc fod Swyddog o adran Ystadau y Cyngor Sir wedi cytuno cwrdd gyda chynrychiolwyr y Cyngor i drafod syniadau ar gyfer y defnydd o adeilad yn y dyfodol a chytunwyd cynnig cwrdd am 4:00yh yn ystod y pythefnos nesaf.

**105 Arolwg Cymunedol Ceredigion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion am Arolwg Cymunedol Ceredigion caiff ei wneud gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar ran y Cyngor.

Nodwyd y gwybodaeth a dderbyniwyd ac i aros am ddechrau'r Arolwg.

**106 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Pwyllgor Neuadd Bentref Cilau Aeron**

Nodwyd y gwahoddiad i Aelodau fynd i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Pwyllgor Neuadd Bentref Cilau Aeron ar 24ain Mai 2023.

**107 Unrhyw Fater Arall**

Nodwyd y gwybodaeth a roddwyd gan y Cynghorydd Sir Marc Davies y bwriedwyd cyflwyno cyfyngiadau cyflyndra 20mya ar ffyrdd y Sir ym mis Medi.

Cytunwyd dwyn sylw'r Cyngor Sir unwaith eto at broblemau gyda'r draen ar y

tro ar y rhiw yn arwain o’r Bont Newydd, Ciliau Aeron.

Cytunwyd ystyried addasrwydd yr ystafell ar lawr cyntaf Neuadd Bentref Ciliau Aeron ar gyfer cyfarfodydd o’r Cyngor oherwydd ei faint cyfyngedig.

Cytunwyd trefnu taith gerdded yn ardal Ciliau Aeron yn fuan, yn dilyn llwyddiant taith gerdded y flwyddyn blaenorol yn ardal Cilcennin.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm